# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Tachwedd 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae'r Prif Weinidog yn mynd ati i annog holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn agored ac yn dryloyw. (WAQ39757)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'i gyd-Weinidogion yn y Cabinet, ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu ag aelodau eraill o Gabinet San Steffan ynghylch toriadau yn y gwasanaeth sifil yng Nghymru. (WAQ39854)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog nodi unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu eu gwneudmynd arnynt, ynghyd â'r diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39857)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan ynghylch y Mesur Hapchwarae. (WAQ39856)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog nodi unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu eu gwneudmynd arnynt, ynghyd â 'r diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39864)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i sefydlu 'Pwyllgor ar gyfer Holl Ddefnyddwyr Trafnidiaeth Cymru'. (WAQ39850)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y caiff buddiannau teithwyr rheilffyrdd yng Nghymru eu diogelu pan ddaw Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru i ben. (WAQ39851)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno sylwadau ar gael mwy o gynrychiolwyr ar Gyngor Teithwyr Rheilffyrdd y DU.

(WAQ39852)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ymgynghoriadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelu buddiannau defnyddwyr trafnidiaeth yng Nghymru, ac a wnaiff ddarparu manylion am unrhyw ymgynghoriadau o'r fath. (WAQ39853)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog nodi unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu eu gwneudmynd arnynt, ynghyd â 'r diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39861)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Addysg Uwch yn y De-ddwyrain. (WAQ39835)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Raglen Erasmus. (WAQ39748)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd sydd gan fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgolion Cymru i astudio dramor yn rhan o'u cwrs. (WAQ39749)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Faint o fyfyrwyr yng ngweddill y DU sy'n defnyddio'r Rhaglen Erasmus. (WAQ39750)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Faint o fyfyrwyr yng Nghymru sy'n defnyddio'r Rhaglen Erasmus. (WAQ39751)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu costau ei hymweliad â Chatalonia yn ddiweddar. (WAQ39843)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu manteision ei hymweliad â Chatalonia i Gymru (os oes yna rai). (WAQ39844)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol ar ddefnyddio Penaethiaid sydd wedi ymddeol mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ39855)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu mynd arnynt ynghyd â diben yr ymweliadau a'r costau. (WAQ39862)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a anfonwyd y ddogfen ymgynghori TAN 8: Ynni Adnewyddadwy i Gynghorau Tref yng Nghymru. (WAQ39836)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a anfonwyd y ddogfen ymgynghori TAN 8: Ynni Adnewyddadwy i Gynghorau Cymuned yng Nghymru. (WAQ39837)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a anfonwyd y ddogfen ymgynghori TAN 8: Ynni Adnewyddadwy i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. (WAQ39838)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu at bwy yng Nghymru yr anfonwyd y ddogfen ymgynghori TAN 8: Ynni Adnewyddadwy. (WAQ39839)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi'r amserlen er mwyn ymateb i'r ddogfen ymgynghori TAN 8: Ynni Adnewyddadwy. (WAQ39840)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw sylwadau hwyr mewn perthynas â'r ymarfer ymgynghori ar TAN 8: Ynni Adnewyddadwy yn cael eu derbyn ai peidio. (WAQ39841)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu mynd arnynt, ynghyd â diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39863)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r union ddyddiad y bydd y system gwynion mewn perthynas â pherthi uchel yn dod i rym. (WAQ39752)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar W^yl Fwyd y Bont-faen. (WAQ39745)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaethau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i alw ar Awdurdod Datblygu Cymru i barhau i gefnogi Gw^yl Fwyd y Bont-faen yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. (WAQ39746)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i werthuso llwyddiant Gw^yl Fwyd y Bont-faen. (WAQ39747)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu

unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu mynd arnynt, ynghyd â diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39858)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif ar gyfer cost y dodrefn a fydd yn cael eu cyflenwi ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ39845)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif ar gyfer cost y cyfarpar TG ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ39846)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif ar gyfer cost y ffioedd proffesiynol ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ39847)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif ar gyfer cost gwaith celf ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ39848)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw gostau ychwanegol, uwchlaw'r £40.997m + TAW, yn gysylltiedig ag adeilad newydd y Cynulliad, heblaw am gost gwaith celf, cyflenwi dodrefn, cyfarpar TG a ffioedd proffesiynol. (WAQ39849)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu mynd arnynt, ynghyd â diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39860)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r Cynlluniau Integredig ar gyfer Rheoli Peryglon y mae Awdurdodau Tân Cymru yn eu mabwysiadu ar hyn o bryd. (WAQ39842)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw ymweliadau tramor y mae'n bwriadu mynd arnynt, ynghyd â diben yr ymweliadau hynny, a'r costau. (WAQ39859)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae cyfiawnder cymdeithasol yn cael ei weithredu yn Nhor-faen. (WAQ39753)